OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 383 (Cy. 118)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A5 a'r A494 (Man i'r Gorllewin o Gorwen, Sir Ddinbych i Fan i'r Gorllewin o Badog, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *15 Mawrth 2016* |
| *Yn dod i rym* | *21 Mawrth 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) a Chefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Mawrth 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A5 a'r A494 (Man i'r Gorllewin o Gorwen, Sir Ddinbych i Fan i'r Gorllewin o Badog, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2016.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn; a

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 09:00 o’r gloch ar 21 Mawrth 2016 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr “y darn(au) o’r gefnffordd/cefnffyrdd” (“*the length(s) of the trunk road(s)*”) yw’r darnau hynny o’r cefnffyrdd yn Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Conwy a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Atal Dros Dro**

**6.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 wedi eu hatal dros

**Cymhwyso**

**7.** (1) Nid yw darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 15 Mawrth 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A494 i'r gorllewin o Gorwen sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A5 wrth gyffordd goleuadau traffig Tyn-y-cefn hyd at bwynt 300 metr i'r gogledd o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o bwynt 300 metr i'r dwyrain o ganolbwynt cyffordd goleuadau traffig yr A5/A494 Tyn-y-cefn hyd at bwynt 700 metr i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Fetws Gwerful Goch hyd at bwynt 100 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r ffordd

ddiddosbarth sy’n arwain at yr annedd o’r enw Dôl-y-penau, Dinmael.

Y darn o gefnffordd yr A5 i’r dwyrain o Gerrigydrudion sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth sy’n arwain at yr annedd o’r enw Ystrad Bach hyd at bwynt 200 metr i’r gorllewin o’i chyffordd â’r B4501.

Y darn o gefnffordd yr A5 i’r dwyrain o Badog sy’n ymestyn o bwynt 300 metr i’r gorllewin o’i chyffordd â’r B4407 sy’n arwain at Ysbyty Ifan hyd at ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth sy’n arwain at yr annedd o’r enw Rhydlanfair, i’r gogledd-orllewin o Badog.

## ATODLEN 2
## Gwahardd Goddiweddyd Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A5 sy’n ymestyn o bwynt 100 metr i’r dwyrain o’i chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth sy’n arwain at Fetws Gwerful Goch hyd at bwynt 100 metr i’r gorllewin o’i chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth sy’n arwain at yr annedd o’r enw Dôl-y-penau, Dinmael.